

**CRONFA E. L. W. PARK-JONES**

**CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain AWST 2023**

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI  
CYFRIFWYR SIARTREDIG  
CAERNARFON**

**CRONFA E. L. W. PARK-JONES**

**CYFRIFON ARIANNOL AM Y FLWYDDYN I'R 31ain AWST 2023**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1
Adroddiad yr Arholwr Annibynol	2
Datganiad O'r Gweithgareddau Ariannol	3
Mantolen	4
Nodiadau i'r Cyfrifon	5

**CRONFA E. L. W. PARK-JONES**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR**

Enw'r elusen yw Cronfa E.L.W Park Jones a rheolir yr elusen gan Gynllun y Comisiwn Elusennau dyddiedig 7fed o Orffenaf 1995. Rhif cofrestru'r elusen yw 1105444 a chyfeiriad cofrestru yr elusen yw Maes Glas, 37 y Maes, Caernarfon, Gwynedd.

Caiff yr ymddiriedolwyr eu penodi gan yr ymddiriedolwyr presennol, Pwyllgor Rheoli Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Phwyllgor Rheoli Urdd Gobaith Cymru ac yn ystod y flwyddyn sy'n diweddau 31ain o Awst 2023, bu'r canlynol yn gweithredu fel ymddiriedolwyr

- Ms Helen Gwyn
- Mrs Delyth Roberts
- Dr Kenneth Jones
- Dylan H Hughes
- W Lloyd Davies

Cyfanswm incwm dros wariant yr elusen am y flwyddyn cyn caniatáu am gynyddiad mewn gwerth y buddsoddiadau oedd £88. O fewn y cyfanswm hwn mae colledion o brynu a gwerthu buddsoddiadau o £18,409 sydd yn ran o gronfa cyfyngedig. Wedi caniatáu am ailbrizio buddsoddiadau i'w gwerth marchnadol, mae lleihad i werth y gronfa o £77,123. Cyfanswm asedau net yr elusen yw £2,170,987.

Mae yr Elusen yn ymgeisio gweithredu o fewn ei incwm blynyddol a chynnal gwerth y gronfa gyfalaf. Mae yr ymddiriedolwyr yn fodlon fod asedau digonol gan yr elusen ar gael i gyflawni cyfrifoldebau yr elusen.

Mae yr ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sydd yn datguddio gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, safle ariannol yr elusen. Mae yr ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau yr elusen ac felly yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra eraill.

Cyfranddaliadwr	AFH Private Wealth Limited
Cyfreithwyr	Pritchard Jones Lane, Caernarfon, Gwynedd.
Arholwyr Annibynnol	A. Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni, Caernarfon, Gwynedd.

Prif nod yr elusen yw i hyrwyddo, defnyddio a diolegu dyfodol yr iaith Gymraeg.

Dros y flwyddyn ymgeisiodd yr elusen i gyflawni ei phwrpas drwy ddarparu £26,500 o wobrau i'r Eisteddfod neu gystadleuthau eraill mewn barddoni, rhyddiaeth, drama, canu a cherddoriaeth os yw'r cystadleuthau wedi eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar .....16/7/....., 2024 ac arwyddwyd ar eu rhan gan

  
.....  
Ymddiriedolwr

### Adroddiad Arholwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cronfa E. L. W Park-Jones

Rhoddaf adroddiad ar gyfrifon Y Bont am y flwyddyn i'r 31ain Awst 2023 ar dudalennau 3 i 5.

#### Cyfrifoldebau sydd yn briodol i'r Ymddiriedolwyr Ar Arholwr Annibynnol

Chwi fel Ymddiriedolwyr yr elusen sydd yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon, yr ydych yn ystyried nad yw'r gofyniad i gynnal archwiliad yn gymwys, a bennir yn o dan adran 144(2) o'r Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf 2011) ac y bod angen arholiad annibynnol.

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- arholi'r cyfrifon o dan adran 145 o ddeddf 2011;
- dilyn y trefniannau a roddir yn y Cyfarwyddiad Cyffredinol gan Gomisiynwyr Yr Elusennau dan adran 145(5)(b) o Ddeddf 2011; ac
- datgan os daeth materion penodol i'm sylw.

#### Sail adroddiad yr Arholwr Annibynnol

Gwnaed yr arolwg yn ôl y Canllawiau Cyffredinol a roddwyd gan Gomisiynwyr yr Elusennau. Mae'r arolwg yn cynnwys adolygu cofnodion y cyfrifon a gedwir gan yr Elusen a chymharu'r cyfrifon sydd yn cael eu cyflwyno gyda'r cofnodion. Mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitem anghyffredin neu ddadleniadau yn y cyfrifon a cheisiwyd cael eglurhad gennych chi fel Ymddiriedolwyr ynglyn ag unrhyw faterion o'r fath. Ni fydd y ffurf a gymerir gennyf yn rhoi'r holl dystiolaeth a fuasai ei angen mewn archwiliad, ac felly nid wyf yn datgan barn a yw'r cyfrifon yn cyflwyno 'darlun gwir a theg' ac mae'r adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion a nodwyd yn y datganiad isod.

#### Datganiad yr Arholwr Annibynnol

Yn gysylltiedig â'r arolwg a wnaed gennym ni ddaeth dim i'm sylw:

- (1) sydd yn rhoi achos rhesymol i mi gredu nad yw, mewn unrhyw fodd o bwys yr anghenion wedi eu cadw ynglyn a:
  - (i) cadw cofnodion cyfrifyddol yn unol ag Adran 130 o Ddeddf 2011; ac
  - (ii) i baratoi cyfrifon sydd yn cydfynd a'r cofnodion cyfrifyddol ac sydd yn ufuddhau i ofynion cyfrifyddol Ddeddf 2011.
- (2) Nid oes unrhyw fater yn fy marn sydd angen tynnu sylw iddo er mwyn rhoi dealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.

Dyddiad: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_  
 I Parry ACA  
 A. Hughes Jones Dyson A'u Cwmni.  
 Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig  
 Capel Moreia  
 South Penrallt  
 Caernarfon.

## CRONFA E. L. W. PARK-JONES

Datganiad o Weithgareddau Ariannol  
am y Flwyddyn yn Diweddu Awst 31ain, 2023

Incwm a Gwariant	2023 £	2023 £	2022 £	2022 £
<b>Adnoddau Cyllid</b>				
Incwm o Fuddsoddiadau	50,837		49,459	
Llog Banc	<u>6,301</u>		<u>-</u>	
Cyfanswm Adnoddau Cyllid		<u>57,138</u>		<u>49,459</u>
<b>Adnoddau a Ddefnyddiwyd</b>				
Ffi Rheoli Buddsoddiadau	10,273		12,657	
Costau Archwilio	600		600	
Costau Cyfreithiol	1,200		1,200	
Costau Banc	68		68	
Rhoddion Elusen	<u>26,500</u>		<u>18,000</u>	
Cyfanswm Adnoddau a Ddefnyddiwyd		<u>38,641</u>		<u>32,525</u>
Adnoddau a Derbyniadau Net		18,497		16,933
Ennillion/(Colledion) o Fuddsoddiadau	-	18,409		205,716
Symudiadau Net Mewn Ffynonellau		(77,123)		(626,930)
Balans ar 1af Medi 2022		2,248,021		2,652,302
Balans ar 31ain Awst 2023		<u>2,170,987</u>		<u>2,248,021</u>

## CRONFA E. L. W. PARK-JONES

Mantolen Ar Awst 31, 2023

	Nodyn	2023 £	2023 £	2022 £	2022 £
Buddsoddiadau	2		1,895,699		1,862,895
Dyledwyr		135		135	
Arian yn y Banc		302,403		416,041	
Credydwyd		(27,250)		(31,049)	
Asedau Cyfredol Net			275,288		385,127
Asedau Net			<u>2,170,987</u>		<u>2,248,022</u>
<b>Cyfrif Cyfalaf</b>					
Cronfeydd Heb Eu Cyfyngu			130,545		112,048
Cronfeydd Wedi Eu Cyfyngu			2,040,442		2,135,974
			<u>2,170,987</u>		<u>2,248,022</u>
Ymddiriedolwr					

## CRONFA E. L. W. PARK-JONES

Nodiadau I'r Cyfrifon am y Flwyddyn yn Diweddau a'r Awst 31, 2023

### 1 Polisïau Cyfrifyddol

Paratowyd y cyfrifon yn ol y confensiwn cost hanesyddol, wedi ei addasu trwy ail-brisio rhai asedau sefydlog yn unol a safonau cyfrifol cymwys, ac yn unol a'r Datganiad o Arferiad Cymeradwy mewn Cyfrifo gan Elusennau.

#### Buddsoddiadau

Cynhwysir buddsoddiadau yn ol eu gwerth marchnadol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhwysir llogau a dididendau fel incwm buddsoddiadol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

### 2 Buddsoddiadau

	Gwerth Machnadol 1/09/2022	Gwariant dros gost gwerthiant ar Fuddsoddiadau	Enillion/ (Colledion) Buddsoddiadol na Wireddwyd	Gwerth Machnadol 31/08/23
Portfolio Beaufort	1,862,895	109,927	(77,123)	1,895,699
	<u>1,862,895</u>	<u>109,927</u>	<u>(77,123)</u>	<u>1,895,699</u>

### 3 Taliadau i Ymddiriedolwyr

Ni dalwyd unrhyw swm i ymddiriedolwyr yr Elusen yn ystod y flwyddyn 2023